O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2021 (Cy. 189)

PRIDIANNAU TIR, CYMRU

Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Diwygio) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheolau)

Mae'r Rheolau hyn yn diwygio Rheolau Pridiannau Tir Lleol 1977 (O.S. 1977/985) drwy ddileu o Atodlen 3 (Ffioedd) y cofnod cyfan ar gyfer eitem 5 (chwiliad personol yn y gofrestr gyfan neu mewn rhan ohoni mewn cysylltiad ag un parsel o dir neu, os yw'r chwiliad yn rhychwantu mwy nag un parsel, y parseli hynny). Mae'r ffi'n anghydnaws â Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004(**1**) sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2003/4/EC(**2**) ynghylch mynediad gan y cyhoedd at wybodaeth amgylcheddol.

(**1**) O.S. 2004/3391.
(**2**) OJ Rhif L 41, 14.2.2003, t 26.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2021 (Cy. 189)

PRIDIANNAU TIR, CYMRU

Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Diwygio) (Cymru) 2010

Gwnaed *8 Awst 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

10 Awst 2010

Yn dod i rym *31 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheolau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Arglwydd Ganghellor gan adran 14 o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975(**1**) ac sydd bellach wedi ei freinio ynddynt hwy(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheolau hyn yw Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Diwygio) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 31 Awst 2010.

(2) Mae'r Rheolau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheolau Pridiannau Tir Lleol 1977

2. Yn Atodlen 3 (Ffioedd) i Reolau Pridiannau Tir Lleol 1977(**3**), hepgorir eitem 5 (chwiliad personol yn y gofrestr gyfan neu mewn rhan ohoni).

(**1**) 1975, p.76. Diwygiwyd adran 14 gan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42) a chan adran 15(1) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 (p.4) a pharagraffau 82 ac 85(1) o Ran 1 o Atodlen 4 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd pŵer yr Arglwydd Ganghellor dros wneud rheolau ar gyfer rhagnodi ffioedd a'r dull o dalu ffioedd, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1977/985. Amnewidiwyd Atodlen 3 yn ei chyfanrwydd gan O.S. 2003/2502.

Jane E.Hutt

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, un o
Weinidogion Cymru

8 Awst 2010